



### Croeso i Gylchlythyr cyntaf y Pwyllgor Archwilio.

Rwy'n bwriadu ysgrifennu cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn i roi'r diweddaraf i chi ar y gwaith rydym wedi'i wneud a'n canlyniadau. (Ian Arundale, Cadeirydd)



## Diwedd Pysur i 2017/18

### Ein Hadolygiad o Gyngor Caerdydd

Gorffennom ein hadolygiad o 2017/18 yn ein cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin eleni.

- Ymunodd y Prif Weithredwr â ni, a amlinellodd:**
  - Y Strwythur Uwch Reoli newydd
  - Y targedau i leihau risgiau mwyaf y Cyngor
  - Y dull o asesu a rheoli llywodraethu gan yr Uwch Dîm Rheoli
- Gorffennom ein hadolygiad o **Ddatganiad Cyfrifon (DC) y Cyngor 2017/18**, gan:
  - ✓ Ystyried polisïau cyfrifyddu'r Cyngor a'u defnydd
  - ✓ Herio a chwestiynu trafodion ariannol, balansau a gwybodaeth naratif
- Gorffennom ein hadolygiad o **Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) y Cyngor 2017/18**, gan:
  - ✓ Ystyried fframwaith llywodraethu a dull gweithredu'r Cyngor
  - ✓ Herio a chwestiynu canlyniadau asesiadau a datgeliadau ategol.

Rydym yn cwrdd â'r Prif Weithredwr bob blwyddyn i geisio hyder yn systemau llywodraethu'r Cyngor a'r gwaith o reoli risg.

Rydym yn adolygu'r DC a'r DLIC ar y cam drafft ac yn dilyn Archwiliad

### Ein Hunan-Adolygiad

- ✓ Ym mis Mawrth 2018, cwblhaom hunan-asesiad arfer gorau.
- ✓ Aseswyd ein bod yn effeithiol yn ein rôl graidd, ond mae wastad lle i wella a datblygu.
- ✓ Yn benodol, mae gennym gynlluniau i wella ein **Cyfathrebu, Rhwydweithio a Hyfforddi**

### Adolygiad Archwilio Mewnol

- ✓ Mae'r Tîm Archwilio wedi hunan-asesu ei gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)
- ✓ Mae dilysiad annibynnol wedi cefnogi'r hunan-asesiad o gydymffurfiaeth â'r PSIAS.

## Ein Barn 2017/18

### Y Cadarnhaol

- Mae gan y Cyngor, ar y cyfan, drefniadau rheoli a llywodraethu ariannol cadarn
- Mae risgiau strategol sy'n cynrychioli'r gwir heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn cael eu nodi a'u hadolygu'n dda

### Meysydd Pryder Parhaus a Ffocws Cymunedol ar gyfer 2018/19

- Blaenoriaethu a rheoli'r gyllideb
- Rheolaethau Ariannol a Mewnol
- Cadernid ariannol (gan gynnwys rheoli'r trysorlys)
- Llywodraethiant ysgol a chydymffurfiaeth

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18

Rydym wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18, y byddaf yn falch o'i gyflwyno i a'i drafod gyda'r Cyngor ym mis Hydref 2018.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhoi cyfrif o:

1. Rôl, gwaith a barn y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/18
2. Pwy ydyn ni, canlyniadau ein hunan-asesiad a'n cynllun gweithredu datblygiadol.

## Ymlaen i 2018/19

### Beth mae ein Tîm Archwilio Mewnol wedi'i ddysgu eleni hyd yn hyn?

#### Y Cadarnhaol

- Fframwaith effeithiol ar gyfer adolygu a datgelu llywodraethu corfforaethol.
- Enghreifftiau o lywodraethu da a phenderfyniadau effeithiol mewn cyfarwyddiaethau ac ysgolion

#### Meysydd i'w Datblygu

- Canllaw partneriaeth/cydweithredu
- Cydymffurfiaeth cynllunio parhad busnes
- Comisiynu a chaffael y gyfarwyddiaeth
- Rheolaeth ariannol y Gwasanaeth Cerdd

### Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gwnaethom gwrdd â'r Cyfarwyddwr ym mis Medi fel rhan o'n gwaith ymgysylltu cylchol ag uwch reolwyr mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Trafodwyd y materion a'r risgiau llywodraethu canlynol.

#### Darpariaeth a Chynnal a Chadw Ysgolion

Cawsom wybod am:

- Gymeradwyaeth y Cabinet i gapasiti a llywodraethu ychwanegol i Ysgolion Band B yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- Gwaith sy'n mynd rhagddo i reoli cydymffurfiaeth adeiladau ysgol.


#### Cyrhaeddiad Ysgolion a Rheoli Cyllidebau

Cawsom wybod am:

- Welliannau i berfformiad ysgolion a'r nifer sydd wedi'u categoreiddio'n 'Wyrdd'.
- Y gwaith o fonitro cynlluniau adfer diffyg ariannol ysgolion a balansau sy'n cynnwys arian dros ben.

#### Adolygu Llywodraethu

Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi hunan-asesu ei defnydd o lywodraethu da fel



#### Adroddiadau Archwilio Mewnol

Mae'r Cyfarwyddwr wedi croesawu gwaith Archwilio Mewnol mewn Ysgolion gan roi sicrwydd ei fod yn cynnig cefnogaeth ac ymyriadau lle bo angen i wella rheolaeth a llywodraethiant ariannol.

*Byddwn yn monitro'r meysydd hyn drwy ddiweddariadau risg chwarterol, adolygiadau llywodraethu bob chwe mis a gwaith Archwilio Mewnol annibynnol.*

## Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

Gwnaethom gwrdd â'r Cyfarwyddwr ym mis Medi fel rhan o'n gwaith ymgysylltu cylchol ag uwch reolwyr mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Trafodwyd y prif faterion llywodraethu a risg canlynol:

### Rhaglenni Rheoli Amgylcheddol

Cawsom wybod am:

- Fentrau rheoli ansawdd aer i leihau llygredd aer a'r effaith ar iechyd.
- Mesurau lliniaru erydiad arfordirol a rheoli'r perygl o lifogydd.
- Rheoli newid yn yr hinsawdd a chyflenwad ynni cyson.


### Rhaglenni Diogelwch a Chydymffurfiaeth

Cawsom wybod am:

- Gydymffurfiaeth Rheoli Gwastraff a gwaith rheoli.
- Cynnydd yn gosod bolardiau lliniaru cerbydau gelyniaethus mewn lleoliadau allweddol.

### Adolygiad Llywodraethu

Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi hunan-asesu ei defnydd o lywodraethu da fel



### Adroddiadau Archwilio Mewnol

Crynhodd y Cyfarwyddwr statws yr archwiliadau sydd wedi'u trefnu ac sy'n mynd rhagddynt eleni.

Trafodwyd y cynnydd a'r targedau o ran camau gweithredu y mae angen eu cymryd mewn perthynas â 'Thir Mabwysiedig' a 'TG Rheoli Cyfleusterau (Tranman)'.

*Byddwn yn monitro'r meysydd hyn drwy ddiweddariadau risg chwarterol, adolygiadau llywodraethu bob chwe mis a gwaith Archwilio Mewnol annibynnol.*

## Amdanom Ni a'n Gwaith

### Llywodraethu

### Rheoli Mewnol

### Cyllid

### Rheoli Risg

#### Rydym ni'n annibynnol

*Rydym yn cynnwys pedwar aelod lleyg ac wyth Cynghorydd (nad ydynt ar y Cabinet)*

- ✓ Rydym yn adolygu llywodraethu a rheolaethau mewnol
- ✓ Rydym yn adolygu adroddiadau Arianno, rheolaeth a gwerth am arian
- ✓ Rydym yn adolygu Rheoli Risg

*Rydym yn derbyn a thrafod adroddiadau a diweddariadau gan amrywiaeth o Reolwyr a'r timau Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol.*

Os hoffech **wybod mwy** am ein rôl a'n gwaith, edrychwch ar wefan y Cyngor

<http://cardiff.moderngov.co.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=137&LLL=0>

Ym mis Tachwedd, **rydym yn edrych 'mlaen at gwrdd â'r....**

- Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau
- Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
- Prif Swyddog Digidol